Ôl-ddyledion Nwy a Thrydan

Os oes gennych ôl-ddyledion nwy neu drydan, mae'n bwysig eich bod yn ceisio datrys y broblem ar unwaith. Os na thalwch chi eich dyledion nwy a thrydan (tanwydd), rydych chi mewn perygl o gael eich torri i ffwrdd. Oherwydd eich bod mewn perygl o gael eich torri i ffwrdd, fe ddylech chi ddelio â'ch dyledion tanwydd cyn rhai eraill, llai pwysig megis dyledion cardiau credyd neu gatalog, gorddrafftiau, benthyciadau neu arian a fenthyciwyd oddi wrth deulu a ffrindiau.

Os oes gennych ddyledion eraill yn ogystal ag ôl-ddyledion tanwydd fe ddylech chi geisio datrys pob un ohonynt. Fe ddylech chi gael cyngor i wneud hyn oddi wrth ymgynghorydd dyledion profiadol.

Ffyrdd o dalu eich ôl-ddyledion

Os ydych chi'n cael trafferth i dalu eich biliau trydan neu nwy, cysylltwch â'ch cyflenwr tanwydd ar unwaith a dewch i gytundeb ynglŷn â sut i dalu eich ôl-ddyledion.

Rhaid i gyflenwr tanwydd ddilyn amodau trwydded safonol, sy'n gosod allan sut mae'n delio â chwsmeriaid sydd â phroblemau ynglŷn â thalu.

Golyga hyn y dylech gael cynnig cytundeb i dalu eich ôl-ddyledion yn ôl graddfa y gallwch ei fforddio. Rhaid i'r cyflenwr gynnig dull o dalu i chi sydd yn fwyaf addas i'ch sefyllfa bersonol ac ariannol. Rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth eich gallu i dalu.

Os bydd y cwmni tanwydd yn mynnu eich bod yn talu yn ôl mwy nag y gallwch ei fforddio, mae'n bosibl y bydd yn mynd yn erbyn ei amodau trwydded.

Gweithiwch allan faint y gallwch fforddio ei dalu. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i chi lunio cyllideb, gan restru holl incwm a threuliau eich cartref. Fe allwch ddefnyddio y daflen gyllido i'ch helpu i wneud hyn (gweler isod). Peidiwch â chytuno i dalu swm na allwch ei fforddio. Os wnewch chi gytundeb na fedrwch chi mo'i gadw, fe allech gael eich gorfodi i dderbyn mesurydd rhagdaliad yn lle.

Trefniadau Tymor byr

Os na chawsoch chi broblemau talu'ch biliau tanwydd cyn hyn, neu os yw'n debygol y bydd eich problemau ariannol yn rhai dros dro, fe ellir cynnig cytundeb tymor byr i chi. Golyga hyn y cewch ganiatad i dalu'ch bil mewn rhandaliadau cyhyd ag y bydd y bil dyledus yn cael ei dalu cyn i'r nesaf gyrraedd. Sut bynnag, ni bydd disgwyl i chi dalu eich ôl-ddyledion yn y ffordd hon os na allwch chi fforddio hynny.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Talu Rhandaliadau misol
Fe allwch chi drefnu i dalu eich ôl-ddyledion fesul rhandaliadau misol. Gelwir hyn yn **gynllun taliad.** Gyda chynllun taliad, rhaid i chi fel arfer dalu am y tanwydd rydych chi'n ei ddefnyddio trwy fesurydd credyd. Sut bynnag, bydd rhai cyflenwyr yn caniatáu cynllun taliad gyda mesurydd rhagdaliad sydd wedi'i osod i dalu am eich defnydd presennol o danwydd yn unig.

Bydd eich cyflenwyr yn gweithio allan y swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol. Bydd hyn yn cynnwys swm amcangyfrif am y tanwydd y byddwch yn ei ddefnyddio yn bresennol a'r swm ar gyfer yr ôl-ddyledion. Ni ddylai eich cyflenwr geisio eich cael i glirio'r ôl-ddyledion ynghynt nag y gallwch chi fforddio'u talu.

Mesuryddion Rhagdaliad
Os ydych chi'n wynebu cael eich datgysylltu, neu os ydych chi wedi methu cadw at y cynllun taliad, gall y cyflenwr gynnig gosod mesurydd rhagdaliad. Os ydych chi yn y sefyllfa hon, efallai y bydd yn rhaid i chi dderbyn mesurydd rhagdaliad os ydych chi am gadw eich cyflenwad nwy neu drydan.

Bydd mesurydd rhagdaliad yn caniatáu i chi dalu swm sefydlog o'ch ôl-ddyledion wrth i chi dalu am y tanwydd y byddwch yn ei ddefnyddio yn gyfredol ar yr un pryd.

Rydych chi'n talu am y tanwydd gyda thocyn neu allwedd (trydan) neu gerdyn smart (nwy), a bydd yn rhaid i chi eu gwefru mewn siopau neu garejis lleol. Os na fyddwch chi'n ail wefru eich tocyn, allwedd neu gerdyn, fe redwch chi allan o danwydd.

Rhaid i'r cyflenwr tanwydd wneud yn siwr ei fod yn casglu eich ôl-ddyledion ar raddfa sy'n cymryd i ystyriaeth eich gallu i dalu.

Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau, fe ddylid caniatau i chi dynnu eich ôl-ddyledion o'ch budd-daliadau yn lle trwy fesurydd rhagdaliad, os bydd hyn yn gweithio'n well i chi.

Didyniadau o'ch budd-daliadau
Os ydych chi'n derbyn rhai budd-daliadau, fe allwch chi drefnu i dalu eich ôl-ddyledion tanwydd mewn symiau wythnosol bychain gaiff eu didynnu o'ch budd-daliad. Gelwir hyn yn **ddidyniadau trydydd parti**. Rhaid eich bod yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm neu Gredyd Pensiwn. Penderfynir ar y swm i'w ddidynnu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Gall y dull hwn o dalu eich ôl-ddyledion tanwydd fod yn rhatach a mwy cyfleus i chi na defnyddio mesurydd rhagdaliad. Hefyd, mae'n golygu na fyddwch yn rhedeg allan o nwy neu drydan, a allai ddigwydd os defnyddiwch chi fesurydd rhagdaliad.

Os ydych chi am i'r didyniadau o'ch budd-daliadau gael eu defnyddio i dalu eich ôl-ddyledion tanwydd, fe ddylech chi gysylltu â'r **Ganolfan Byd Gwaith** a'ch cyflenwr tanwydd. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cysylltu â'ch cyflenwr i wirio ei fod yn

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

cytuno â chi'n talu yn y dull hwn. Os ydych chi am dalu'ch ôl-ddyledion tanwydd trwy ddidyniadau trydydd parti, efallai y bydd angen help ymgynghorydd profiadol arnoch i drefnu hyn.

Grantiau ar gyfer talu eich ôl-ddyledion
Mae rhai cwmniau nwy a thrydan wedi sefydlu ymddiriedolaethau elusennol annibynnol sy'n gallu rhoi grantiau i rai o'u cwsmeriaid i'w helpu hwy i dalu ôl-ddyledion nwy a thrydan. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan www.edfenergytrust.org.uk neu mynnwch lyfryn Ymddiriedolaethau a Chynlluniau Lles oddi wrth www.britishgasenergytrust.org.uk .

Datgysylltiad

Ni all eich cyflenwr eich datgysylltu heb anfon rhybudd datgysylltiad i chi gyntaf. Ni allant anfon rhybudd datgysylltiad i chi tan o leiaf 28 diwrnod ar ôl iddynt anfon eich bil. Rhaid iddynt roi rhybudd o saith diwrnod o leiaf, yn ysgrifenedig, cyn y gallant eich datgysylltu. Yn ymarferol, mae'n anhebygol y cewch eich datgysylltu, cyn belled ag y gallwch dalu am eich tanwydd a chytuno i dalu rhywbeth tuag at eich ôl-ddyledion. Efallai y bydd yn rhaid i chi dderbyn gosod mesurydd rhagdaliad.

Os cewch chi'ch bygwth gan ddatgysylltiad neu os cewch chi eich datgysylltu mewn gwirionedd a chwithau'n methu datrys y broblem gyda'r cyflenwr yn uniongyrchol, cysylltwch â Chyswllt Defnyddwyr. Mae hyn hefyd yn gymwys os ydyw'r datgysylltiad o ganlyniad i fethiant eich mesurydd rhagdaliad. Lle bydd yn briodol bydd Cyswllt Defnyddwyr yn cyfeirio'r broblem i Lais Defnyddwyr. Os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad, fe allwch gysylltu â Gwasanaethau'r Ombwdsman: Ynni.

Datgysylltiad – cwsmeriaid bregus

Efallai bydd rhai grwpiau o gwsmeriaid yn cael amddiffyniad ychwanegol rhag cael eu datgysylltu. Gallai hyn fod yn gymwys i chi os ydych chi:

- o oedran pensiwn
- yn dioddef o salwch tymor hir
- yn anabl
- â phroblemau ariannol difrifol.

Os ydych chi'n perthyn i un o'r grwpiau hyn o bobol, gwnewch yn siwr fod y cwmni tanwydd yn gwybod hyn pan gysylltwch chi â hwy.

Os na allwch chi ddeall neu weithredu ar y cyngor a roddir, er enghraifft, o achos amgylchiadau personol neu gymhlethdod y broblem, fe'ch ystyrir yn gwsmer bregus. Os ystyrir chi yn gwsmer bregus a chwithau'n methu datrys y broblem gyda'ch cyflenwr yn uniongyrchol, cysylltwch â Chyswllt Defnyddwyr. Lle bydd yn briodol fe fyddan nhw'n cyfeirio'r broblem i Lais Defnyddwyr. Os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad, fe allwch gysylltu â Gwasanaethau'r Ombwdsman: Ynni.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Cyswllt Defnyddwyr
Gall Cyswllt Defnyddwyr roi cymorth a chyngor i chi ynglyn â'r holl faterion ynni. Fe allwch achwyn wrthynt am eich cyflenwr os ydych yn fregus, neu o dan fygythiad i gael eich datgysylltu neu wedi'ch datgyslltu mewn gwirionedd. Eu rhif ffôn yw 0845 404 0506 neu ewch i'w gwefan yn: www.consumerdirect.gov.uk.

Llais Defnyddwyr
Corff sy'n gwarchod buddiannau'r defnyddwyr ydyw Llais Defnyddwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu lles cwsmeriaid trydan a nwy. Mae ganddynt wybodaeth ddefnyddiol ar eu gwefan yn: www.consumerfocus.org.uk.

Gwasanaethau'r Ombwdsman: Ynni
Os oes gennych gwyn yn erbyn eich cyflenwr tanwydd a chwithau heb allu ei ddatrys yn uniongyrchol gyda hwy, fe allwch gysylltu â Gwasanaethau'r Ombwdsman: Ynni ar 0330 440 1624 neu fynd i'w gwefan yn www.ombudsman-services.org/energy.

Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes
Mae'r llinell Gymorth Cartrefi Cynnes yn cynnig cyngor ynglyn ag effeithlonrwydd ynni a dyledion tanwydd i bobol ar incwm isel. Gall y Llinell Gymorth hefyd wneud yn siwr os ydych yn perthyn i un o'r grwpiau ddylai gael amddiffynfa ychwanegol rhag datgysylltu, nad ydych mewn perygl o gael eich torri i ffwrdd. Fe allwch gysylltu â Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes ar 0800 33 66 99.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Cyflenwad Nwy
- Delio â phobl y mae arnoch chi arian iddynt
- Cyflenwad Trydan
- Taflen Gyllido
- Costau tanwydd ac arbed arian

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 30 Tachwedd 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr